# COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

# BWLETIN PCC

# Rhif 14 – 23 Tachwedd 2012

**Y pedwerydd bwletin ar ddeg hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau rheolaidd i roi gwybod i bartneriaid a swyddfa'r PCC am faterion sydd o ddiddordeb yn y tirlun diwygio'r heddlu yn dilyn ethol comisiynwyr yr heddlu a throseddau. Bydd y bwletinau hyn yn parhau yn awr bod y Comisiynwyr yn eu swyddi, ac mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:**

- **Comisiynwyr yn cymryd eu swyddi**
- **Dyfodol y Bwletin PCC**
- **Digwyddiadau Croesawu'r Comisiynwyr**
- **Digwyddiadau gwybodaeth APCC; Digwyddiad Cenedlaethol y Comisiynwyr**
- **Deddfwriaeth yn ymwneud â phaneli heddlu a throseddu**
- **Cyfarwyddyd ar Graffu ar y Praesept**
- **Cyfarwyddyd ar Gwynion**
- **Cynhadledd Cyllidebau Cymunedol**
- **Dolenni Iechyd a CJS; Mandad GIG**
- **Cronfa Diogelwch Cymunedol**
- **Ymateb i waith cyfathrebu'r Swyddfa Gartref;**

## Comisiynwyr yn cymryd eu swyddi

Mae'r diwygiad democrataidd mwyaf arwyddocaol i blismona yn ystod ein hoes wedi digwydd yn awr, gydag ethol 41 comisiynydd yr heddlu a throseddau'r wythnos ddiwethaf. Cychwynnodd y Comisiynwyr ar eu gwaith ar 22ain Tachwedd. Am y tro cyntaf erioed mae rhywun yn gyfrifol am blismona sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol i'r swydd, a fydd yn dod a mwy o atebolrwydd ac amlygrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol am blismona.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gweithio gyda'r heddlu i leihau troseddu, rhoi llais i'r cyhoedd ar y lefel uchaf, yn dal lluoedd heddlu yn atebol, ac yn helpu i gryfhau'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd mewn plismona.

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref y datganiad canlynol yn San Steffan ar ôl yr etholiadau:

"A gaf i gymryd y cyfle hwn yn gyntaf i groesawu'r 41 comisiynydd yr heddlu a throseddau a etholwyd ddydd Iau diwethaf. Mae ganddynt gyfrifoldebau pwysig a byddant yn llais pwysig i bobl yn ardaloedd eu lluoedd heddlu wrth blismona cymunedau lleol. Bydd y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cymryd eu swyddi yn swyddogol ddydd Iau yma [22ain Tachwedd]. Edrychaf ymlaen at gael gweithio gyda nhw yn y dyfodol i wneud popeth a allwn i sicrhau ein bod yn medru parhau i leihau troseddu."

Gallwch weld pwy yw'r comisiynwyr yr heddlu a throseddau a etholwyd ar wefan y Swyddfa Gartref ynghyd â'u hareithiau wrth gael eu hethol.

## Dyfodol y Bwletin PCC

Cynhyrchwyd y Bwletin PCC, a anelwyd at bartneriaid, yn fisol ers Gorffennaf y llynedd. Yn awr bod y Comisiynwyr yn eu swyddi ein bwriad yw parhau'r bwletin, a all newid i adlewyrchu anghenion ein partneriaid ymhellach. Bwriedir, o'r rhifyn nesaf ymlaen, ofyn i bartner gwahanol ysgrifennu fel gwestai yn y bwletin bob mis, a bydd y bwletin yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am ddigwyddiadau, a thynnu eu sylw at gyfarwyddyd perthnasol a gwybodaeth arall y byddai o fudd iddynt gael gwybod amdani.

Byddem yn croesawu barn partneriaid ar beth y byddech yn hoffi ei gynnwys mewn rhifynnau o'r bwletin yn y dyfodol. Gall fod yn ragor o wybodaeth ar fater penodol, neu efallai eich bod am ysgrifennu erthygl eich hun fel ysgrifennwr gwadd, a rhoi eich arbenigedd neu eich barn ar rai o'r cyfleoedd a gynigir wrth weld comisiynwyr yr heddlu a throseddau yn cyrraedd y tirlun yn lleol. Os oes gennych unrhyw syniadau neu y byddech yn hoffi cynnig ysgrifennu erthygl ddifyr eich hun anfonwch e-bost i fewnflwch y Partneriaid yn gyntaf (cyfeiriad isod).

## Digwyddiadau Croesawu'r Comisiynwyr

Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn awr wedi gwahodd yr holl gomisiynwyr yr heddlu a throseddau newydd i Ddigwyddiad Croesawu yn y Swyddfa Gartref ar 3 Rhagfyr 2012. Bydd hwn yn gyfle ffurfiol cyntaf i'r Ysgrifennydd Cartref a'i thîm gweinidogol gyfarfod comisiynwyr yr heddlu a throseddau. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar osod y sylfeini i'r Comisiynwyr fedru ffurfio perthynas waith effeithiol gyda'r Swyddfa Gartref a'r llywodraeth yn ehangach.

## Digwyddiadau gwybodaeth APCC

Bydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfres fisol o ddigwyddiadau gwybodaeth i Gomisiynwyr a phartneriaid trwy gydol 2013, gan gynnig cyfle i drafod a rhannu arfer da ar draws ystod o flaenoriaethau plismona, diogelwch cymunedol a chyfiawnder allweddol. Mae'r rhestr o ddyddiadau posibl a'r pynciau (yn amodol ar gael cytundeb y Comisiynwyr arnynt) ar gael ar wefan yr APCC http://www.apccs.police.uk/page/Events Dylai unrhyw bartner sydd am gofrestru diddordeb mewn cyfrannu at y digwyddiadau hyn neu fynd iddynt gysylltu â tania.eagle@apccs.police.uk. Rhoddir y manylion llawn gyda hyn.

## Cyfarfod Cenedlaethol yr APCC 23ain Ionawr

Cynhelir digwyddiad cyntaf yr APCC ar 23 Ionawr yn y Guildhall yn Llundain. Bydd yn sesiwn gaeedig i'r Comisiynwyr yn canolbwyntio ar weithlu'r heddlu, cyllid ac ariannu. Bydd digwyddiadau eraill ar agor i rai sydd â diddordeb sy'n dymuno mynd iddynt ac ymwneud â'r Comisiynwyr.

## Deddfwriaeth yn ymwneud â phaneli heddlu a throseddu

Mae'r tabl wrth y ddolen isod yn rhestr o ddeddfwriaeth eilaidd yn gysylltiedig â chyflwyno a sefydlu paneli heddlu a throseddau. Fe'i cynlluniwyd fel canllaw hawdd cyfeirio ato ac mae'n cynnig dolen i bob un o'r deddfau gyda dolen ar wahân i gyfarwyddyd esboniadol. Ewch i'r ddolen: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/pcp-secondary-legislation

## Cyfarwyddyd ar Graffu ar y Praesept

Ychwanegwyd y nodyn cyfarwyddyd yn nodi'r broses i'r panel heddlu a throseddau graffu ar y modd y mae comisiynwyr yr heddlu a throseddau yn gosod y praesept at adran panel yr heddlu a throseddau ar wefan y Swyddfa Gartref yn ddiweddar:

http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/scrutiny-of-precept-guidance

## Cyfarwyddyd ar Gwynion

Ychwanegwyd y nodyn cyfarwyddyd yn nodi'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion a materion ymddygiad nad ydynt yn rhai troseddol am Gomisiynydd a'i ddirprwy at adran panel yr heddlu a throseddau ar wefan y Swyddfa Gartref yn ddiweddar:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/pcp-complaints-handling-process

## Cynhadledd Cyllidebau Cymunedol

Cynhelir Cynhadledd Cyllidebau Cymunedol ar 29 Tachwedd.

Cynhelir y drafodaeth yn Llundain a bydd yn ddigwyddiad na ellir ei golli i unrhyw un sy'n dymuno dysgu mwy am y rhaglen Cyllidebau Cymunedol, neu'r rhai sydd angen deall sut y gall profiad y cynlluniau peilot gael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau yn eu hardal.

Bydd y gynhadledd yn arddangos llwyddiannau'r cynlluniau peilot Cyllideb Gymunedol Y Lle i Gyd, y syniadau cyfredol a'r cynigion ar gyfer Cyllidebau Cymunedol i Ardaloedd a'r camau nesaf. Gellir cael gwybodaeth am y gynhadledd yn: www.community-budgets-conf.co.uk

## Dolenni Iechyd a CJS

Bydd gwella iechyd poblogaeth leol yn gofyn am weithio mewn partneriaeth ar droseddau, atal trais a diogelwch cymunedol. Bydd angen i ardaloedd lleol ymwneud â'r comisiynwyr heddlu a throseddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau yma a gweithio yn effeithiol. Yn yr un modd, mae lleihau troseddau yn gofyn am fewnbwn iechyd cryf ar faterion fel dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol a iechyd meddwl, a bydd raid i Gomisiynwyr ymwneud â phartneriaid iechyd.

Mae dogfen a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn "Health and wellbeing boards and criminal justice agencies: building effective engagement" yn cynnig cefnogaeth ymarferol i bartneriaid ar ennyn ymlyniad. Gellir gweld y ddogfen hon trwy'r ddolen:

https://knowledgehub.local.gov.uk/group/nationallearningnetworkforhealthandwellbeingboards/forum/-/message_boards/message/9196646

## Mandad y GIG

Ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd yr Adran Iechyd y Mandad cyntaf rhwng y Llywodraeth a Bwrdd Comisiynu'r GIG, yn nodi'r uchelgais ar gyfer y gwasanaeth iechyd dros y ddwy flynedd nesaf. Mae Adran 7 o'r Mandad yn edrych ar rôl ehangach y GIG ac mae'n cynnwys amcan i wneud gweithio mewn partneriaeth (gan gynnwys gyda Chomisiynwyr a phartneriaethau diogelwch cymunedol) yn llwyddiant. Gellir gweld y mandad a'r dogfennau ategol trwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.dh.gov.uk/health/2012/11/nhs-mandate/

## Cronfa Diogelwch Cymunedol

Bydd lefel gyffredinol y cyllid a dyraniadau lefel Comisiynwyr gan y Gronfa Diogelwch Cymunedol newydd dros dro yn 2013-14 yn cael eu cyfleu i'r partneriaid cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl Datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr.

## Gwaith cyfathrebu'r Swyddfa Gartref Angen eich barn

Yn awr bod comisiynwyr yr heddlu a throseddau wedi cymryd eu swyddi, rydym yn chwilio am eich barn ar beth oeddech chi'n feddwl o'r deunydd y gwnaethoch ei dderbyn gan y Swyddfa Gartref trwy gydol y cyfnod o newid. Rydym yn gofyn i chi lenwi arolwg byr (uchafswm o 15 munud) a fydd yn ein galluogi i werthuso ein dulliau a'n gweithgareddau. Mae eich ymateb yn amhrisiadwy a bydd o gymorth i ni wella ein deunydd cyfathrebu i chi wrth symud ymlaen.

Cymrwch ein harolwg ar-lein yma:
http://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=63025gmzsn

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â matthew.mitchell2@homeoffice.gsi.gov.uk

**Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd i bartneriaid yn awr bod comisiynwyr yr heddlu a throseddau yn eu swyddi. Cysylltwch â ni yn PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk i gael gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd ar y gweill a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych.**

**Anfonwch syniadau a chynigion ar gyfer cynnwys bwletinau'r dyfodol i'r cyfeiriad hwn hefyd os gwelwch yn dda.**